

CYNGOR TREF FRENHINOL CAERNARFON

COFNODION CYFARFOD Y CYNGOR LLAWN, 12fed Mai 2020 – Cyfarfod Rhithiol

Yn bresennol: Ei Deilyngdod Y Maer – Cyngorydd W.Tudor Owen
(Cadeirydd)

Y Cynghorwyr W.L.Davies, A.Hopcyn, E.Hughes, D.L.Jones, K.Jones,
C.Larsen, E.Lovgreen, B.Owen, W.R.Owen, J.W.Parry, S.Sage, M.Sarnacki,
I.C.Thomas, C.Williams

1. Ymddiheuriadau

Y Cynghorwyr K.Richards, R.Thomas

2. Cyhoeddiadau'r Maer

Dim

3. Datgan Buddiant Personol

Eitem 4 – Eitemau Brys – (2) – Ariannu Digwyddiadau – Y Cyngorydd
A.Hopcyn

Eitem 4 – Eitemau Brys – (2) – Ariannu Digwyddiadau – Y Cyngorydd
D.L.Jones

Eitem 4 – Eitemau Brys – (2) – Ariannu Digwyddiadau – Y Cyngorydd
E.Lovgreen

Eitem 4 – Eitemau Brys – (2) – Ariannu Digwyddiadau – Y Cyngorydd
C.Williams

4. Eitemau Brys (Cadeirydd / Clerc)

(1) Goleuo'r Castell

Nododd y Clerc bod waliau'r Castell wedi ei oleuo ar y 7fed o Fai i ddiolch i'r Gwasanaeth Iechyd, Gofalwyr a'r gymuned am yr hyn sy'n cael ei wneud yn ystod y cyfnod Covid-19.

Gofynnwyd am gyfraniad gan Asiantaethau gwahanol. Erbyn hyn roedd £700 o'r costau ar ôl ar gyfer y "Generator" a gofynnwyd i'r Cyngor Tref gyfrannu beth bynnag oedd yn gallu ei wneud tuag at hynny.

Penderfynwyd bod y Cyngor Tref yn cyfrannu unai hyd at £350 (hanner cost y "Generator") tuag at y digwyddiad, neu beth bynnag fyddai hanner cost y "Generator" os oedd yn llai na £700. Yn ogystal dylid

gofyn i'r Clerc edrych i mewn i pa bot o arian y dylai'r cyfraniad ddod ohono.

(2) Ariannu Digwyddiadau

Nododd y Clerc bod y Panel Cyllid wedi cymeradwyo taliadau tuag at ddigwyddiadau oedd yn cymryd lle yn 2020/21, a bod y Cyngor Llawn wedi cymeradwyo hyn ym mis Mawrth. Roedd angen penderfyniad o ran yr egwyddor o dalu arian yn 2020/21 tuag at ddigwyddiadau oedd wedi eu canslo oherwydd Covid-19.

Roedd wedi holi Unllais Cymru am hyn a'r ymateb gafwyd oedd na fyddai'n briodol i wneud taliadau grant i sefydliadau oedd wedi gofyn am arian ar gyfer digwyddiadau nad oedd bellach yn gallu cymryd lle oherwydd yr argyfwng cenedlaethol. Fodd bynnag nodwyd y byddai'n werth rhoi'r mater gerbron y Cyngor er mwyn i'r aelodau benderfynu ar y mater. Gallasai rhai sefydliadau fod wedi cael costau nad oeddynt yn medru eu hosgoi, a posib eu bod angen iddynt ofyn am arian i dalu am y costau hyn.

Penderfynwyd:

- (1) Talu'r arian a glustnodwyd i'r sefydliadau hyn ar gyfer 2020/21 yn 2021/22.**
- (2) Ar gyfer 2020/21 gofyn i'r Clerc hysbysu'r sefydliadau y gallent wneud cais am unrhyw gostau annisgwyl roeddynt wedi gofod eu gwynebu.**

5. Cofnodion

I gadarnhau'r cofnodion canlynol:

i. Cyngor Llawn – 3ydd o Fawrth 2020

Penderfynwyd derbyn fel rhai cywir (unfrydol).

ii. Pwyllgor Gwaith – 10fed o Fawrth 2020

Trafodwyd beth oedd cynlluniau Cyngor Gwynedd o ran torri gwair a nodwyd fod y sefyllfa o ran baw cŵn wedi dirywio'n ofnadwy ers y "lockdown".

Penderfynwyd derbyn fel rhai cywir (unfrydol).

6. Covid-19

Cyflwynwyd adroddiad llafar y Clerc yn rhoi diweddariad am y sefyllfa o ran Covid-19.

Nodwyd:

- (1) Nad oedd y Gofalwr a'r Swyddog Cynnal a Chadw yn eu gwaith oherwydd cyflyrau meddygol. Roedd y Clerc mewn cysylltiad efo'r**

ddau, ac am adolygu'r sefyllfa pan fydd Llywodraeth Cymru yn cynnal yr adolygiad nesaf ar gyfer Cymru, ymhen tua pythefnos.

- (2) Gan fod llawer o faterion wedi eu delegeiddio i'r Clerc dros gyfnod y Covid-19, bydd angen dod â Rheolau Sefydlog diwygiedig y Cyngor gerbron y cyfarfod nesaf o'r Cyngor er mwyn cyfarch hyn, yn unol â chyngor Uned Gyfreithiol Cyngor Gwynedd.
- (3) Bod Canllawiau wedi eu creu (yn seiliedig ar ganllawiau oedd yn cael eu defnyddio gan Gyngor Tref Amwythig) er mwyn dyrannu arian o'r Gronfa Argyfwng i sefydliadau oedd yn gwneud cais am arian i'w cynorthwyo yn ystod yr argyfwng.
- (4) Bod y Canllawiau yn sicrhau bod gan aelodau lais mewn unrhyw benderfyniad.
- (5) Ei bod yn bwysig pwysleisio'r rhaniad clir rhwng y Cyngor Tref a Cofis Curo Corona.

Penderfynwyd nodi'r uchod.

7.Materion Ariannol

- (i) Awdit 2019-20 – Cyflwynwyd adroddiad llafar y Clerc yn rhoi diweddariad am y sefyllfa.

Nododd y Clerc:

- (1) Ei fod wedi derbyn gohebiaeth am Awdit Ariannol 2019/20 oedd yn nodi'r amserlen ganlynol:
 - **16eg Mehefin** - Arddangos yr hysbysiad archwilio erbyn 16eg Mehefin mewn lle amlwg ac ar wefan y Cyngor o leiaf hyd at 1af Gorffennaf.
 - **30ain Mehefin** - Ffurflen flynyddol i'w ardystio gan y Swyddog Ariannol â Chyfrifoldeb a'i gymeradwyo gan y Cyngor. Bydd methu â gwneud hyn yn arwain at farn archwilio amodol. 30ain Mehefin yw'r dyddiad olaf ar gyfer cymeradwyo'r ffurflen flynyddol.
 - **Arolygu cyfrifon** - Rhaid i chi sicrhau bod y ffurflen flynyddol a'ch cofnodion cyfrifyddu ar gael i'r cyhoedd eu harolygu ar rybudd rhesymol am 20 diwrnod gwaith.
 - **10fed Gorffennaf** - Unwaith bo'r ffurflen flynyddol wedi cael ei chymeradwyo, dylid ei hanfon, ynghyd â'r dogfennau eraill i'r BDO (Archwiliwr Allanol). Rhaid cymeradwyo ac anfon y ffurflen 2020 hyd yn oed os nad yw'r archwiliad 2019 wedi'i gwblhau.
 - **29ain Gorffennaf** - Ni all yr Archwiliwr Allanol gyhoeddi eu barn archwilio tan ar ôl 29ain Gorffennaf.
 - **29ain Gorffennaf** - Dyddiad cyntaf y gall etholwyr arfer eu hawliau dan Ddeddf Archwilio Cyhoeddus (Cymru) 2004.

Oherwydd anawsterau Covid-19 roedd Swyddfa Archwilio Cymru wedi datgan y bydd peth hyblygrwydd efo'r amserlen:

- Os yw'r cyfrifon yn annhebygol o gael eu hardystio gan y swyddog ariannol cyfrifol a'u cymeradwyo erbyn 30ain Mehefin, dylai cynghorau hysbysu eu tîm archwilio, drwy e-bost, y bydd oedi.
- Yna, rhaid i gynghorau gyhoeddi hysbysiad yn ôl y gofyn, gan gynnwys rhoi copi ar eu gwefan. Dylai cynghorau ddarparu tystiolaeth o hyn i'r

tîm archwilio pan gaiff y ffurflen flynyddol gymeradwy ei chyflwyno yn y pen draw.

- Ar yr amod bod hysbysiad yn cael ei gyhoeddi fel y nodir uchod a bod tystiolaeth ddigonol yn cael ei darparu, ni fydd y farn archwilio yn amodol. Bydd cynghorau wedi dangos eu bod yn cydymffurfio â'r Rheoliadau.
- Mae'r dyddiad ar gyfer arfer hawliau etholwyr wedi'i nodi yn yr hysbysiad archwilio sydd wedi'i gynnwys gyda'r datganiadau blynyddol. Mae'n debygol y bydd oedi sylweddol yn y broses archwilio. Felly, bydd angen i Swyddfa Archwilio Cymru bennu dyddiad newydd ar gyfer arfer yr hawliau hyn ac nid oedd angen i gynghorau gyhoeddi'r hysbysiad archwilio y maent newydd ei dderbyn.
- Ar ôl i'r cyfrifon gael eu hardystio a'u cymeradwyo, bydd angen i gynghorau hysbysu'r tîm archwilio a chyflwyno'r ffurflen flynyddol a gwybodaeth ychwanegol i'r tîm archwilio yn brydlon.
- Bydd archwilwyr yn cytuno ar ddyddiad newydd ar gyfer arfer hawliau etholwyr ar ôl iddynt gael gwybod bod y cyfrifon wedi'u cymeradwyo. Wrth gytuno ar y dyddiadau diwygiedig gyda chynghorau, bydd archwilwyr yn ein hatgoffa o'r wybodaeth sydd ei hangen ar gyfer yr archwiliad.

Nodwyd ymhellach y gofynnir i'r cynghorau roi'r wybodaeth ddiweddaraf i'r tîm archwilio am yr amserlen debygol ar gyfer cyflwyno'r ffurflenni blynyddol. Unwaith y bydd cynghorau'n gallu ail-ymgynnull, dylent anfon y ffurflenni blynyddol a'r wybodaeth ategol gymeradwy i'w timau archwilio cyn gynted â phosibl er mwyn helpu'r timau archwilio i reoli llifau gwaith.

Penderfynwyd nodi'r uchod.

- (ii) Cyflwynwyd y sefyllfa ddiweddaraf o ran Incwm a Gwariant Mawrth ac Ebrill.

Nododd y Clerc bod y biliau wedi gorfod cael eu talu, cyn eu cyflwyno i'r Cyngor Llawn oherwydd Covid-19. Yn ogystal ymatebodd y Clerc i gwestiynau a godwyd yn ystod y cyfarfod, yn cynnwys:

- Dau daliad i K Owen o ran Trwydded Microsoft – roedd y mater bellach wedi ei ddatrys, ond ar y pryd roedd y taliad wedi mynd allan o gyfrif y cyn Clerc.
- Y bydd yn nodi taliadau o'r Gronfa Argyfwng ar wahân o hyn allan.

Penderfynwyd nodi'r uchod, a gofyn i'r Clerc ymchwilio i gostau trydan uchel y goleuadau Nadolig.

8. Materion y Cyngor

- (i) **Maerolaeth 2020 – 2021**

Nodwyd fod trafodaethau wedi cymryd lle ac mai dymuniad y Maer a'r Dirprwy Faer oedd ymestyn yr amserlen am flwyddyn. Byddai'n rhaid i'r penderfyniad gael ei wneud yn y Cyfarfod Blynyddol.

Penderfynwyd nodi'r uchod.

(ii) Cyfarfod Blynyddol a chyfarfodydd eraill

Nodwyd fod y Clerc wedi holi cynghorau eraill o ran amserlen eu Cyfarfod Blynyddol, ac mai'r cynharaf oedd hyn yn gallu digwydd yn ymarferol oedd mis Medi.

Penderfynwyd nodi'r uchod, a newid dyddiad y Cyngor Llawn nesaf o'r 2il o Fehefin i'r 9fed o Fehefin.

9. Adeilad yr Institiwt

Cyflwynwyd adroddiad llafar y Clerc yn rhoi diweddariad am y sefyllfa o ran Adeilad yr Institiwt.

Nododd y Clerc nad oedd llawer wedi digwydd ers y cyfarfod diwethaf oherwydd yr argyfwng Covid-19. Roedd Asesiad Risg Tân wedi ei dderbyn, ond roedd anodd cael arbenigwyr i mewn i wneud y gwaith. Roedd yn bosib gwneud mân bethau, fel gwneud arwyddion.

Gan fod nifer o faterion amrywiol a chymhleth yn ymwneud ag Adeilad yr Institiwt, nododd ymhellach y byddai'n fuddiol cael Grŵp bach i edrych ar y rhain er mwyn llunio rhaglen dros rhai blynyddoedd a blaenoriaethu gwaith.

Penderfynwyd y dylai'r grŵp i lunio rhaglen ar gyfer gwaith ar yr adeilad gynnwys y Maer, Cadeirydd y Pwyllgor Gwaith, y Clerc a'r Dirprwy Clerc, ac y dylai'r grŵp adrodd i'r Pwyllgor Gwaith.

10. Taliadau i Aelodau

Er mwyn ffurfioli trefniadau, cyflwynwyd tabl allan o Adroddiad Blynyddol – Panel Annibynnol Cymru ar Gydabyddiaeth Ariannol – Chwefror 2020 i'w fabwysiadu.

Penderfynwyd mabwysiadu'r tabl, gan gymeradwyo'r taliadau isod:

- **Sicrhau bod taliad blynyddol o £500 yr un ar gael i isafswm o 1 ac uchafswm o 5 aelod i gydnabod cyfrifoldebau penodol. Mae hyn yn ychwanegol at y taliad o £150 am gostau a threuliau (oes – rhaid i'r cyngor benderfynu sawl taliad o £500 bydd yn eu gwneud – i rhwng 1 a 5 o aelodau, oni bai iddynt hysbysu'r swyddog priodol yn ysgrifenedig nad ydynt am ei gymryd)**
- **Gall cynghorau tref a chymuned yng Ngrwpiau B neu C wneud taliad blynyddol o hyd at £500 yr un i hyd at 5 aelod i gydnabod cyfrifoldebau penodol. Mae hyn yn ychwanegol at y taliad o £150**

am gostau a threuliau. Oes – mae'n dewisol i dalu am hyd at 5 aelod ac, os caiff ei dalu, rhaid penderfynu swm (hyd at £500).

- **Cymeradwyo talu costau teithio pob aelod ar gyfer mynychu dyletswyddau cymeradwy.**
- **Os yw cyngor tref neu gymuned yn penderfynu bod angen arhosiad dros nos ar gyfer dyletswydd benodol, rhoi awdurdod i ad-dalu treuliau cynhaliaeth i'w aelodau.**
- **Talu iawndal am golled ariannol i bob un o'u haelodau, lle mae colled o'r fath wedi cael ei hysgwyddo mewn gwirionedd, o ganlyniad i fod yn bresennol i gyflawni dyletswyddau cymeradwy.**
- **Cymeradwyo taliad i'r Maer neu gadeirydd y cyngor hyd at uchafswm o £1,500.**
- **Cymeradwyo taliad i'r Dirprwy Faer neu is-gadeirydd y cyngor hyd at uchafswm o £1,500.**

11. Lleoedd Lleol ar gyfer Natur

Cyflwynwyd gwybodaeth ar yr uchod, sy'n cynnig cyfleoedd i'r Cyngor Tref.

Nodwyd:

- (1) Bod y Cyngor wedi bod yn llwyddiannus i dderbyn pecyn gan Cadwch Gymru'n Daclus, a wnaed yn bosibl trwy gyllid gan Lywodraeth Cymru.
- (2) Bod y Cyngor wedi bod yn llwyddiannus i gael pecyn gardd Pili Pala, a bod amodau penodol ynghlwm.
- (3) Oherwydd Covid-19 ni all unrhyw weithgarwch ymarferol ddigwydd ar hyn o bryd, ac ni ellir gwneud unrhyw gyhoeddiadau cyhoeddus ynglŷn â'r wob, hyd nes y codir y cyfyngiadau. Mae hynny'n cynnwys holl gyhoeddiadau'r wasg a'r cyfryngau cymdeithasol.

Penderfynwyd nodi'r uchod, a gofyn i'r Clerc wneud ymholiadau os y gellid cael Cymorth Groundworks.

12. Drysau Agored

Gofynnwyd am ganiatâd i gofrestru ar gyfer eleni.

Penderfynwyd gofyn i'r Clerc gofrestru, ac edrych os oedd opsiynau o ran gwneud y gweithgareddau yn electronig ar gyfer eleni oherwydd Covid-19.

13. Cwestiynau

Dim.

Gorffennodd y cyfarfod am 7.20 p.m.

Arwyddwyd

Dyddiad

